PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR RHAGLEN, CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION

DYDD LLUN, 8 EBRILL 2019

Yn bresennol: Cynghorydd Merry(Cadeirydd)

Cynghorwyr Goddard, Taylor, Weaver a/ac Williams

15 : YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

16 : DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

17 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor"*

18 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

19 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 - Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd i ddod yn gyflogai i'r awdurdod;

Paragraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

20 : PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN, CYNLLUNIO SEFYDLIADOL YSGOLION

Cynullwyd y Pwyllgor i gyfweld ag un ymgeisydd a oedd, yn dilyn y Pwyllgor ar 25 Mawrth 2019, wedi cael ei gyflwyno i'w gyfweld ar sail y canlyniad o'r ganolfan asesu ac asesiad yn erbyn y cymwyseddau allweddol ar gyfer y rôl.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwahoddwyd yr ymgeisydd i wneud cyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi’r ymgeisydd ar y cyflwyniad.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, ystyriodd y Pwyllgor berfformiad yr ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Sefydliadol Ysgolion

PENDERFYNWYD

1. Bod Mr Richard Portas yn cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Sefydliadol Ysgolion yn unol â'r Radd a'r Cyflog a hysbysebwyd ar gyfer y swydd;

2. Bod y broses ddethol wedi'i chynnal yn unol â'r broses Benodi ac roedd yr holl ymgeiswyr wedi cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yn ystod y broses. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus ar sail teilyngdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.05 pm